



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

27 Gorffennaf 2022

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i

Effaith y pandemig COVID-19 ar y system cyfiawnder troseddol – adroddiad cynnydd

Yr wyf yn hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys wedi ymateb yn effeithlon a chadarn i heriau'r pandemig. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran dychwelyd gwasanaethau i'r lefelau cyn y pandemig, yn ogystal â darparu'n arloesol ddewisiadau nad oedd wedi'u hystyried cyn yr argyfwng. Mae'n galonogol bod Arolygiaeth Ei Mawrhydi wedi cydnabod hyn:

"Er bod dal nifer o broblemau o ganlyniad i effaith y pandemig, yr ydym wedi gweld enghreifftiau lle mae'r pandemig wedi cyflwyno mwy o feddwl strategol, ar draws asiantaethau, am yr heriau a gyflwynwyd gan COVID-19."

Fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLI) Dyfed-Powys, cefais fy nghalonogi gan y gwaith partneriaeth effeithiol drwy gydol y pandemig a arweiniodd at ardal Dyfed-Powys yn dod yn un o'r cyntaf yng Nghymru i ymdrin â'r ôl-groniad yn y llysoedd Ynadon.

Mae BCTLI Dyfed-Powys yn gweithio'n agos â'r Cydlynnydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru er mwyn sicrhau cysoni o ran blaenoriaethau. Cytunwyd ar strwythur adrodd er mwyn sicrhau bod Dyfed-Powys yn tynnu sylw at gynnydd cadarnhaol o ran gweithgarwch lleol a chenedlaethol, yn ogystal â dwysáu meysydd pryder/perygl pan fod angen.

Mae'r adroddiad yn nodi:

"Gwelsom hefyd bod nifer o'r heriau'n amlwg wedi bodoli ers cyn y pandemig, a bod tanariannu a phroblemau strwythurol blaenorol wedi'u dwysáu gan y pandemig. Effeithiodd gweithio gartref ar les rhai pobl, a chafodd rai defnyddwyr gwasanaeth lawer llai o fynediad wyneb yn wyneb at asiantaethau cyfiawnder troseddol."

Drwy gydol y pandemig, cynhaliodd fy Nghyfarwyddwr Comisiynu gyfarfodydd rheolaidd gyda'r holl wasanaethau a gomisiynir er mwyn monitro effaith yr argyfwng COVID-19. Cyflwynwyd adroddiadau wythnosol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (fel darparwyr cyllid) er mwyn sicrhau eu bod nhw'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am statws gwasanaethau yn Nyfed-Powys.

Roedd yr holl wasanaethau rwy'n eu comisiynu, heblaw am un, yn medru gweithio o bell, dros y ffôn a thrwy e-bost, neu drwy gyfyngu cymorth wyneb yn wyneb i'r achosion perygl mwyaf yn unig. Bu'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol dros ben mewn perthynas â thirwedd newydd cymorth gwasanaeth, ac yn wir, mae cleientiaid yn siarad yn fwy rhydd ac yn datgelu mwy drwy ddulliau rhithwir nag oeddent o'r blaen wyneb yn wyneb. Yr

oedd yn ymddangos fel pe bai cleientiaid yn croesawu'r hyblygrwydd a gyflwynwyd gan y pandemig.

Ar ôl derbyn dim ond rhyw 25% o'r arian y gofynnem i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder amdano, bu'n rhaid ail-flaenoriaethu er mwyn uchafu'r hyn yr ydym yn medru ei gyflawni â llai o arian. Er bod cyllid yn y maes hwn dal yn bryder, mae'n hynod bwysig i mi fod y rhai sydd mewn angen yn medru cael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt pan maent eu hangen. I'r perwyl hwnnw, yn ddiweddar, yr wyf wedi sicrhau £271,000 o gyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a fydd yn mynd tuag at gynyddu a chryfhau gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ogystal, yr wyf wedi sicrhau £30,882 ar gyfer Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol Plant.

Byddaf yn parhau i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio'n agos â'r holl asiantaethau partner er mwyn cyflwyno gwasanaethau, ac er mwyn sicrhau na theimlir effeithiau'r pandemig yn y tymor hir a bod manteision yn parhau.